# Cronfa Addysg Caerdydd

**Meini Prawf Cyllid: Unigolion**

Sefydliad Cymunedol Cymru

## Cronfa Waddol Cymunedol Caerdydd

Mae Cronfa Waddol Cymunedol Caerdydd yn ymbarél o gyllid a rhoddion sydd â'r nod penodol o wella addysg ac atgyfnerthu cymunedau yng Nghaerdydd. Nod y gronfa yw darparu bwrsariaethau i unigolion sydd eu hangen e.e. ar gyfer ffioedd cwrs (lle nad oes cymorth arall ar gael) a grantiau tuag at gostau deunyddiau'r cwrs a gweithgareddau. Dylai ceisiadau fodloni o leiaf un o'r blaenoriaethau canlynol:

- Cyrhaeddiad addysgol sy'n cynnwys dysgu gydol oes.
- Cymorth ar gyfer unigolyn talentog ar ffurf ysgoloriaethau, deunyddiau addysgol neu adnoddau eraill.


Dylai ymgeiswyr ddangos sut y byddant yn cyflawni amcanion a blaenoriaethau'r Gronfa, yn enwedig o ran angen ariannol a/neu gymdeithasol. Bydd cyllid yn cael ei flaenoriaethu i'r rhai a fyddai fel arall yn ei chael hi'n anodd cael mynediad i addysg oherwydd incwm isel teulu neu anabledd ac ati.

## Grantiau ar gael

Gall unigolion wneud cais am grant hyd at £500 y flwyddyn am hyd at 3 blynedd.

## Pwy all wneud cais?

Rhoddir blaenoriaeth i unigolion sy'n dilyn addysg bellach a fynychodd ysgol uwchradd yng Nghaerdydd neu sydd wedi byw yn ardal Awdurdod Lleol Caerdydd am o leiaf 5 mlynedd, ar yr amod nad yw'r mentrau yn dod o fewn darpariaeth statudol. Mae'r gronfa yn annhebygol o ddyfarnu grantiau pellach i unigolion sydd wedi derbyn cefnogaeth o'r blaen gan y Gronfa hon.




I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.communityfoundationwales.org.uk

# Sut i wneud cais?

Rhaid i ymgeiswyr lenwi ffurflen gais ar-lein trwy ein gwefan.
Sylwer:

- Ni ddyfernir grantiau'n ôl-weithredol, h.y. am gostau a dynnir cyn derbyn ein llythyr cynnig grant, a dychwelwyd y telerau a'r amodau llofnodedig.
- Rhaid gwario'r grantiau'n llawn o fewn blwyddyn o dderbyn ein llythyr cynnig.
- Rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion cymorth ychwanegol.

Pan fyddwch yn gwneud cais i gefnogi cwrs coleg, byddwn yn gofyn am brawf cofrestru cyn i'r cyllid gael ei ryddhau. Yn achos grantiau aml-flwyddyn, dim ond ar ôl derbyn adroddiad monitro boddhaol a phrawf cofrestru y dyfernir blynyddoedd olynol ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Dylai ymgeiswyr unigol ddarparu geirda addas a ddylai fod yn rhywun sy'n eich adnabod yn dda ond nad yw'n gysylltiedig â chi nac yn byw yn eich cartref. Gallai hyn fod yn athro neu'n diwtor, gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr cymorth, eich rheolwr ac ati. Byddwn yn cysylltu â'r geirda, felly anfonwch y manylion cyswllt diweddaraf a gofynnwch am ganiatâd i'w cynnwys fel geirda ar eich cais cyn ei gyflwyno.

# Cyllid Blwyddyn Lluosog

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i unigolion allu cynllunio ar gyfer y dyfodol a bod cael cyllid diogel yn gallu rhoi'r hyder a'r sicrwydd i chi ddatblygu dros y tymor hir. Mae Cronfa Addysg Caerdydd bellach yn cynnig cyfle i unigolion wneud cais am gyllid aml-flwyddyn o hyd at 3 blynedd ond bydd hefyd yn parhau i gynnig cyllid 1 flwyddyn ar gyfer prosiectau neu eitemau cyfalaf bach.

Rydym yn gobeithio gallu gwneud o leiaf un grant tair blynedd y flwyddyn. I gael eich ystyried am grant tair blynedd, cwblhewch adran ychwanegol y ffurflen gais sy'n nodi sut rydych yn bwriadu datblygu eich prosiect dros y cyfnod o gyllid y gwneir cais amdano. Bydd eich cais yn dal i gael ei ystyried am gyllid blwyddyn os nad ydych yn llwyddiannus gyda grant tair blynedd.

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gofyn i sefydliadau yng Nghymru ystyried effeithiau tymor hir eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl a cymunedau a gyda'i gilydd a rhwystro problemau parhaus rhag codi, megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

Rydym yn awyddus i annog sefydliadau i feddwl nid yn unig am y gymuned ble maen nhw'n byw ac yn gweithio ynddi, ond hefyd sut mae'u gwaith yn gydnaws â ac yn cyd-fynd â gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau a sefydliadau eraill, rhai gwirfoddol a rhai statudol.




Fe hoffen ni i chi ystyried sut y gallai'ch sefydliad weithio gydag eraill er mwyn ychwanegu gwerth a gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na chystadlu. Cofiwch egluro yn eich cais eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol. Fe hoffen ni weld sut mae grwpiau'n gweld effeithiau tymor hir eu penderfyniadau er mwyn gallu gweithio gyda, ar y cyd, ag eraill.